**PWYLLGOR ARCHWILIO AC-03-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Ebrill 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol** | **Aelodau** | |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Janet Davies | De Orllewin Cymru |
| | Jocelyn Davies | De Ddwyrain Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Tystion** | |
| | Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth GIG |
| | Sarah Beaver | Cyfarwyddwr, Adran Gyllid GIG |
| | Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| | Laurie Pavelin | Pennaeth Adran Atebolrwydd Ariannol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| | David Richards | Prif Swyddog Ariannol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |

| | |
|---|---|
| Ian Summers | Swyddfa Archwilio Genedlathol |
| Mike Usher | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad |
| | |
| Howell Rees | Clerc Pwyllgor |
| James Owen | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**EItem 1**

**Sesiynau Cymryd Tystiolaeth – Cyfrifon Cryno GIG Cymru 2000-2001 a Chyllid GIG Cymru 2002**

Papurau: AC-03-02(p.1) a AC-03-02(p.2)

1. Dechreuodd y cyfarfod am 2.08pm gan i’r pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o ran gyntaf y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 8.21(vi);

   *'mae’r pwyllgor yn paratoi ei hun i gymryd tystiolaeth oddi wrth unrhyw berson'*.

2. Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod a chofnododd ddiolch y pwyllgor i’w ragflaenydd, Janet Davies, am ei holl waith fel Cadeirydd y Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at yr heriau o gadeirio y pwyllgor pwysig hwn a sicrhau pobl Cymru fod eu harian wedi ei wario’n gywir ac yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Alun Cairns.
3. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth Ann Lloyd a Sarah Beaver mewn cysylltiad ag adroddiadau gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Gyfrifon Cryno GIG Cymru 2000 – 2001* a *Chyllid GIG Cymru 2002*.
4. Atodir trawsgrifiad gair am air o’r eitem hon fel atodiad 1 i’r cofnodion hyn.

**Eitem 2**

**Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001 a Chyfrif Adnodd Cyfunol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 2000-2001**

Papurau: AC-03-02(p.3), AC-03-02(p.4) a AC-03-02(p.7)

1. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth oddi wrth Jon Shortridge, Laurie Pavelin a David Richards mewn cysylltiad ag adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr *Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001*. Hefyd cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar *Gyfrif Adnodd Cyfunol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 2000-2001*.

2. Atodir trawsgrifiad gair am air o’r eitem hon fel atodiad 2 i’r cofnodion hyn.

**Eitem 3**

**Papurau i’w nodi**

Papurau: AC-03-02(p.5) a AC-03-02(p.6)

1. Nododd y Pwyllgor y papurau canlynol:

- Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Sicrhau’r Incwm Mwyaf oddi wrth Taliadau Presgripsiwn’.
- Gohebiaeth odi wrth Ann Lloyd, Cyfarwyddwr GIG Cymru, ar adroddiad y Pwyllgor Archwilio ‘Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-2000'.

**Eitem 4**

**Cofnodion y Pwyllgor Blaenorol**

Papur: AC-02-02(min)

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.49pm.